Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif:** WG44860

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 –

## Ymgynghori ar eithriadau dros dro a darpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn addysg mewn mwy nag un lleoliad

Dyddiad cyhoeddi: 5 Ebrill 2022
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 17 Mai 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

## Trosolwg

O dan adrannau 42 a 69 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn y drefn honno, mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth er mwyn:

i. galluogi penaethiaid a darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir i ddatgymhwyso dros dro eu cwricwlwm cyfan neu ran ohono mewn perthynas â dysgwr mewn rhai amgylchiadau am gyfnod penodol; a

ii. gwneud darpariaeth ar gyfer y dysgwyr hynny sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un ysgol neu leoliad.

## Sut i ymateb

Dylid cwblhau ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy'r ffurflen ar-lein neu, fel arall, gellir ei e-bostio/postio i'r cyfeiriad isod i gyrraedd **erbyn 17 Mai 2022** fan bellaf.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgynghoriadau

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Cangen Deddfwriaeth Diwygio'r Cwricwlwm
Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Teras Picton
Caerfyrddin
SA31 3BT

ebost: cwricwlwmigymru@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: hyperlink

@WG_Education

Facebook/EducationWales

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu’r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy’n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a’u cadw’n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu’r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion cyn cyhoeddi’ch ymateb. Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Cynnwys

**Geirfa** **3**
**Mynegai Deddfwriaeth** **3**
**Cyflwyniad** **4**
**Eithriadau dros dro** **5**
**Dysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad** **9**
AHY mewn unedau cyfeirio disgyblion/lleoliadau sydd ddim yn unedau cyfeirio disgyblion 9
Ysgolion a gynhelir 10
Plant sy’n derbyn gofal 11

## Geirfa

| | |
|---|---|
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| AHY | Ystyr addysg heblaw yn yr ysgol yw darpariaeth addysg i ddiwallu anghenion penodol disgyblion na allant, am ba bynnag reswm, fynychu ysgol brif ffrwd nac ysgol arbennig. Mewn cyfraith, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau hyn. |
| Addysg feithrin a ariennir nas cynhelir | Mae addysg feithrin a ariennir nas cynhelir yn cyfeirio at addysg, a ariennir gan yr awdurdod lleol, a ddarperir mewn rhai lleoliadau gofal plant nas cynhelir, er enghraifft, meithrinfeydd dydd preifat, Cylch Meithrin a grwpiau chwarae, ar gyfer plant 3 a 4 oed. |

## Mynegai Deddfwriaeth

| Teitl y ddeddfwriaeth: | Cyfeirir atynt hefyd fel: |
|---|---|
| Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 | Deddf 2021 |
| Deddf Addysg 1996 | Deddf 1996 |
| Deddf Addysg 2002 | Deddf 2002 |
| Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Eithriadau Dros Dro ar gyfer Disgyblion Unigol) (Cymru) 1999 | Rheoliadau 1999 |

# Cyflwyniad

1. Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Deddf 2021), a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2021, yn nodi'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cwricwlwm a fframwaith asesu newydd a arweinir gan ddibenion ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 3 ac 16 oed sy'n cael addysg mewn:

    - ysgolion a gynhelir
    - lleoliadau sy'n darparu addysg feithrin a ariennir nas cynhelir
    - unedau cyfeirio disgyblion; a
    - lleoliadau sy'n darparu addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) a drefnir gan awdurdodau lleol.

2. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth gyfyngedig ar gyfer addysg ôl-orfodol mewn ysgolion a gynhelir.

3. Disgwylir i fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ddod i rym ar gyfer dosbarthiadau meithrin, derbyn a grwpiau blwyddyn 1 i 6 o 1 Medi 2022. Mae gan ysgolion uwchradd a lleoliadau eraill yr opsiwn o ddechrau gweithredu fframwaith y cwricwlwm newydd ar gyfer eu dysgwyr blwyddyn 7 o'r dyddiad hwnnw ymlaen. Os na fyddant yn dewis gwneud hynny, byddant yn dechrau gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer disgyblion blwyddyn 7 yn 2023 ar yr un pryd â'u disgyblion blwyddyn 8.

4. Mae rhagor o fanylion ynghylch yr amserlen ar gyfer gweithredu yma.

**Ymgynghoriad**

5. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin ag ystod gyfyngedig o gynigion ar ddau bwnc sy'n ymwneud â gweithredu Deddf 2021. Mae croeso ichi ymateb i'r cwestiynau sy'n ymwneud ag un neu'r ddau o'r pynciau hyn yn dibynnu ar eich diddordeb neu'ch profiad.

6. Mae'r ymgynghoriad yn ymdrin â chynigion ar:
    - galluogi penaethiaid a darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir i ddatgymhwyso dros dro eu cwricwlwm cyfan neu ran ohono mewn perthynas â dysgwr mewn rhai amgylchiadau am gyfnod penodol; a

    - gwneud darpariaeth ar gyfer y dysgwyr hynny sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un ysgol neu leoliad.

**Canllawiau**

7. Bydd canllawiau ar y ddau faes hyn yn cael eu diweddaru ar y dudalen Cwricwlwm i Gymru: crynodeb o'r ddeddfwriaeth ar Hwb, yn ddarostyngedig i wneud y rheoliadau newydd arfaethedig.

## Eithriadau dros dro

8. dan adran 42 o Ddeddf 2021, mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud rheoliadau i alluogi pennaeth mewn ysgol a gynhelir neu ddarparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir i wneud penderfyniad i ddatgymhwyso neu addasu gweithrediad eu cwricwlwm ar gyfer dysgwyr nad oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, pan fyddant yn credu bod angen gwneud hynny. Er enghraifft, os yw plentyn yn ddifrifol wael; plentyn sydd wedi dioddef trawma sylweddol; neu blant sy’n fudwyr a bod addysg, iaith a diwylliant yng Nghymru yn newydd iddynt. Yn yr achosion hyn, efallai na fydd yn ymarferol nac yn deg disgwyl iddynt ymdopi ag addysgu a dysgu y cwricwlwm llawn. Dylai fod penaethiaid a darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir yn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth i ddatgymhwyso'r cwricwlwm cyfan neu ran ohono i ddysgwyr pan fo'n briodol am gyfnod cyfyngedig.

9. Mae Deddf 2021 yn gwneud darpariaeth atodol ynghylch y pŵer hwnnw yn adran 43. Mae'n darparu mai dim ond am gyfnod penodol nad yw'n hwy na 6 mis y gall cyfnod gweithredol y penderfyniad bara.

10. Nid yw'n ymarferol darparu rhestr gynhwysfawr o'r amgylchiadau a fyddai'n caniatáu penderfyniad o'r fath. Bydd achosion o'r fath yn ymwneud yn benodol ag amgylchiadau/cyd-destun y plentyn unigol ac mae'n bwysig caniatáu i benaethiaid a darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir ddefnyddio eu barn broffesiynol.

### Darpariaeth bresennol

11. Mae pwerau ar hyn o bryd i benaethiaid ddatgymhwyso, gydag addasiadau neu hebddynt, agweddau ar y Cwricwlwm Cenedlaethol presennol. Mae adrannau 114 i 116 o Ddeddf Addysg 2002 a Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Eithriadau Dros Dro ar gyfer Disgyblion Unigol) (Cymru) 1999 ("Rheoliadau 1999") yn nodi'r pwerau a'r darpariaethau i alluogi penaethiaid ysgolion a gynhelir i ddatgymhwyso dros dro, gydag addasiadau neu hebddynt, y Cwricwlwm Cenedlaethol mewn perthynas ag unrhyw ddisgybl cofrestredig.[1]

12. Mae Rheoliadau 1999 yn nodi o dan ba amgylchiadau y caiff penaethiaid ddefnyddio eu pwerau i wneud penderfyniad a phennu amseriad y cyfnod y gall y penderfyniad fod yn gymwys amdano. Maent yn gosod cyfyngiadau ar hyd penderfyniadau; ar amrywio a dirymu penderfyniadau; ac ar benderfyniadau pellach. Maent hefyd yn gwneud darpariaeth ar rannu gwybodaeth am y penderfyniad.

13. Gan mai dim ond i'r Cwricwlwm Cenedlaethol y mae Rheoliadau 1999 yn gymwys, ni fyddant yn gweithio gyda'r cwricwlwm newydd. Felly, cynigir dirymu'r rheini a gwneud darpariaeth newydd o dan Ddeddf 2021 ar gyfer plant a disgyblion yn y cwricwlwm newydd. Bydd y ddarpariaeth newydd yn debyg iawn i'r ddarpariaeth a wnaed yn Rheoliadau 1999.

### Darpariaeth arfaethedig

14. Mae adrannau 42 a 43 o Ddeddf 2021 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar eithriadau dros dro ac i atgynhyrchu i raddau helaeth ddarpariaethau yn Neddf 2002.

---

[1] Nid ydynt yn gymwys i agweddau eraill ar y cwricwlwm sylfaenol megis addysg bersonol a chymdeithasol, addysg gyrfaoedd, addysg rhyw, addysg grefyddol na'r cwricwlwm lleol (y cwricwlwm ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 oed).

15. Drwy wneud rheoliadau o dan adran 42 bydd Gweinidogion Cymru yn galluogi penaethiaid a darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir i ddatgymhwyso pob un o ofynion cwricwlwm Deddf 2021 neu rai ohonynt. Fodd bynnag, bydd angen iddynt gael eu bodloni y bydd y cwricwlwm a weithredir ar gyfer yr unigolyn neu'r plentyn o ganlyniad i'r penderfyniad—
    - yn galluogi'r disgybl neu'r plentyn i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben;
    - yn sicrhau addysgu a dysgu sy'n cynnig cynnydd priodol i bob disgybl neu blentyn;
    - yn addas ar gyfer oedran, gallu a dawn y disgybl neu blentyn;
    - yn ystyried anghenion dysgu ychwanegol y disgybl neu'r plentyn (os oes rhai); ac
    - yn sicrhau addysgu a dysgu eang a chytbwys i'r disgybl neu blentyn.

### Amgylchiadau ar gyfer gwneud penderfyniad:

16. Y cynnig yw galluogi penaethiaid a darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir i benderfynu fesul achos pryd a sut y byddai angen iddynt gymhwyso'r darpariaethau. Mae hyn yn ystyried yr amryw o wahanol resymau pam na fyddai cwricwlwm ysgol neu ddarparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir yn briodol i blentyn neu berson ifanc am gyfnod cyfyngedig.

17. Mewn newid o Reoliadau 1999 mae adran 43(2) o Ddeddf 2021 yn nodi na ddylai'r rheoliadau ganiatáu i benderfyniad gael ei wneud ar y sail bod gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu y gallai fod ganddo ADY. Yn lle hynny, dylai datgymhwyso yn sgil ADY gael ei wneud o dan adran 41 o Ddeddf 2021.

### Cyfnod gweithredol y penderfyniad[2]

18. Ar hyn o bryd, mae Rheoliadau 1999 yn ei gwneud yn ofynnol caniatáu cyfnod o un mis rhwng gwneud y penderfyniad a'r dyddiad gweithredu (y dyddiad y daw'r penderfyniad i rym), oni bai bod y pennaeth wedi'i fodloni ei bod yn hanfodol er budd y disgybl neu am resymau addysgol eraill y dylai'r penderfyniad ddod i rym yn gynharach. Mae hyn hefyd yn wir pan fo penderfyniad yn cael ei amrywio.

19. Y cyfnod gweithredol hiraf posibl yw 6 mis ond gall y cyfnod fod yn fyrrach na hyn neu gael ei derfynu'n gynharach na'r disgwyl pan fo'r pennaeth wedi'i fodloni nad yw'r amgylchiadau sy'n arwain at y penderfyniad yn gymwys mwyach.

20. Mae'r rheoliadau drafft yn gwneud yr un ddarpariaeth:
    - cyfnod gweithredol 6 mis
    - cyfnod o 1 mis rhwng gwneud y penderfyniad a'r dyddiad gweithredu
    - gellir terfynu'r cyfnod gweithredol yn gynharach na'r disgwyl os nad yw'r esemptiad yn angenrheidiol mwyach
    - efallai y bydd penderfyniadau pellach yn darparu ar gyfer eithriadau dros dro pellach.

### Gwybodaeth

21. Mae Rheoliadau 1999 yn gwneud gofynion mewn perthynas â darparu gwybodaeth am eithriadau dros dro. Fodd bynnag, nodir y manylion hyn yn adran 44 o Ddeddf 2021 felly nid oes angen gwneud darpariaeth yn y rheoliadau newydd arfaethedig. Dyma'r wybodaeth y mae rhaid ei darparu:
    - y ffaith bod y penderfyniad wedi'i wneud, ei amrywio neu ei ddirymu;
    - effaith y penderfyniad, yr amrywiad neu'r dirymiad;

---

[2] Diffinnir hyn yn Neddf 2021 fel y cyfnod y mae'r penderfyniad yn cael effaith ar ei gyfer.

- y rhesymau dros wneud, amrywio neu ddirymu'r penderfyniad;
- gwybodaeth am—
  - yr hawl i wneud apêl o dan adran 45 (yn achos penderfyniad sy'n ymwneud â disgybl);
  - yr hawl i wneud apêl o dan adran 46 (yn achos penderfyniad sy'n ymwneud ag unrhyw blentyn arall).
- disgrifiad o'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer addysg y disgybl neu'r plentyn yn ystod y cyfnod a bennir yn y penderfyniad;
- disgrifiad o'r ffordd y mae'r pennaeth neu'r darparwr yn bwriadu sicrhau bod y cwricwlwm mabwysiedig yn cael ei weithredu i'r disgybl neu'r plentyn ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

22. Dylid darparu'r wybodaeth i'r disgybl a rhiant/gofalwr y disgybl. Yn achos plant mewn addysg feithrin a ariennir, rhaid ei darparu i'r rhiant/gofalwr.

### Amrywio a dirymu penderfyniadau

23. Y cynnig yw galluogi i benderfyniad gael ei amrywio neu ei ddirymu pan fo'r pennaeth neu'r darparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir wedi'i fodloni nad yw unrhyw ddarpariaeth ynddo bellach yn briodol ar gyfer y disgybl neu'r plentyn hwnnw. Fodd bynnag, fel yn achos Rheoliadau 1999, ni fydd y rheoliadau newydd arfaethedig yn caniatáu newidiadau i'r cyfnod gweithredol.

24. Mae Rheoliadau 1999 yn ei gwneud yn ofynnol rhoi hysbysiad pan wneir penderfyniad i ddirymu'r penderfyniad. Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei gynnwys yn y rheoliadau newydd arfaethedig oherwydd nodir y manylion hyn yn adran 44 o Ddeddf 2021.

### Penderfyniadau pellach

25. Yn debyg i Reoliadau 1999 caiff darpariaeth ei chynnwys yn y rheoliadau newydd arfaethedig i ganiatáu i bennaeth neu ddarparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir wneud penderfyniad pellach mewn perthynas â disgybl neu blentyn. Bydd hyn yn gymwys naill ai pan fo'r amgylchiadau ar gyfer y penderfyniad gwreiddiol yn dal i fod yn gymwys neu pan fo nhw’n wahanol.

26. Ni ddylai'r penderfyniad pellach bara mwy na thri mis. Fodd bynnag, nid oes bwriad i osod cyfyngiad ar nifer y penderfyniadau pellach oherwydd bod angen hyblygrwydd ar benaethiaid a darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir i ddefnyddio eu crebwyll yn seiliedig ar amgylchiadau unigol y disgybl neu'r plentyn.

27. Yn achos ysgolion a gynhelir a meithrinfeydd a gynhelir, bydd angen cydsyniad ysgrifenedig ar y pennaeth gan dri aelod o'r corff llywodraethu a'r awdurdod lleol cyn gwneud penderfyniadau pellach.

### Ceisiadau gan rieni/gofalwyr

28. Yn debyg i Reoliadau 1999, bydd y rheoliadau newydd arfaethedig yn galluogi rhieni/gofalwyr a disgyblion i ofyn i'r pennaeth wneud, amrywio neu ddirymu penderfyniad. Yn achos darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir, bydd y rhieni/gofalwyr (nid y plentyn) yn gallu gwneud cais.

29. Pan wneir cais o'r fath, rhaid i'r pennaeth neu'r darparwr addysg feithrin a gynhelir nas cynhelir, o fewn pythefnos, wneud, amrywio neu ddirymu'r penderfyniad neu roi hysbysiad o'r rhesymau dros wrthod gwneud hynny.

### Apelau

30. Mae adrannau 45 a 46 o Ddeddf 2021 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag apelau am eithriadau dros dro ar gyfer disgyblion unigol a phlant unigol yn y drefn honno.

31. Gall y disgybl a'r rhiant/gofalwr apelio i'r corff llywodraethu. Fodd bynnag, nid yw’r hawl honno'n gymwys i ddisgyblion os yw'r corff llywodraethu yn ystyried nad oes gan y disgybl y gallu i ddeall yr hyn y mae’n ei olygu i arfer yr hawl i apelio. Rhaid i'r corff llywodraethu roi hysbysiad ysgrifenedig o'i benderfyniad i'r disgybl ac i’r rhiant/gofalwr. Fodd bynnag, nid yw hynny'n gymwys os yw'r corff llywodraethu yn ystyried nad oes gan y disgybl y gallu i ddeall yr wybodaeth a fyddai'n cael ei rhoi.

## Dysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad

32. O dan adran 69 o Ddeddf 2021, mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud rheoliadau mewn perthynas â dysgwyr o'r oedran ysgol gorfodol sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad addysgol.

33. Mae nifer o resymau pam mae plant a phobl ifanc wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad. Er enghraifft, plant yn rhannu eu hamser rhwng rhieni sydd wedi gwahanu â gwarchodaeth ar y cyd; plant o gymunedau Teithwyr; a phlant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol ("AHY") am gyfran o'r wythnos oherwydd nad ydynt, am ba bynnag reswm, yn gallu mynychu addysg amser llawn mewn ysgol a gynhelir.

34. Mae gwneud darpariaeth ar gyfer cynllunio a chydlynu'r cwricwla a ddarperir ar gyfer y dysgwyr hyn yn bwysig er mwyn sicrhau eu bod yn elwa ar y cwricwlwm llawn fel y bo'n briodol iddynt hwy; a bod trefniadau asesu yn cyfrannu'n briodol at eu cynnydd drwy gydol eu haddysg.

### AHY mewn unedau cyfeirio disgyblion/lleoliadau sydd ddim yn unedau cyfeirio disgyblion

35. Gall AHY, gan gynnwys addysg mewn unedau cyfeirio disgyblion,[3] chwarae rhan hanfodol wrth addysgu dysgwyr nad yw addysg brif ffrwd yn addas iddynt, gan gynnwys rhai dysgwyr sy'n agored i niwed. Gellir ei darparu mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys drwy sefydliadau addysg bellach, tiwtora gartref a ddarperir gan awdurdod lleol (sy'n wahanol i addysg ddewisol yn y cartref) neu ysgolion annibynnol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r ffyrdd hyn.

36. dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996,[4] rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas mewn ysgol, neu heblaw yn yr ysgol, i ddysgwyr o'r oedran ysgol gorfodol na fydd, am ba bynnag reswm, yn cael addysg addas am unrhyw gyfnod oni bai fod trefniadau o'r fath wedi'u gwneud ar eu cyfer.

37. Gall dysgwyr sy'n derbyn AHY gael eu haddysg drwy gyfuniad o ddarpariaethau. Gallai hyn gynnwys darpariaeth AHY ran-amser a darpariaeth brif ffrwd ran-amser neu AHY amser llawn sy'n cynnwys dau fath neu ragor o ddarpariaeth. Mae rheoliad 9 o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 yn gwneud darpariaeth i ddisgyblion sy'n mynychu dau leoliad cofrestredig, gan gynnwys ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion prif ffrwd, fod â chofrestriad deuol.

38. Yn 2020/21 roedd 2,186 o ddisgyblion yn derbyn AHY.[5] O'r rheini:

- Roedd 1,060 wedi'u cofrestru ag AHY yn unig (darpariaeth AHY amser llawn)
- Roedd 1,792 â chofrestriad deuol atodol gyda'u hysgol (darpariaeth AHY ran-amser, gan dreulio'r lleiafrif o'u hamser yn eu hysgol)
- Roedd 394 â phrif gofrestriad deuol gyda'u hysgol (darpariaeth AHY ran-amser, gan dreulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn eu hysgol).

---

[3] Yn gyffredinol, ystyrir uned cyfeirio disgyblion yn fath o AHY er bod uned cyfeirio disgyblion yn ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol.
[4] Fel y'i mewnosodwyd yn Neddf 1996 gan Ddeddf 2021.
[5] Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2020 i Awst 2021 | LLYW.CYMRU

39. Ar hyn o bryd, mae gwahaniaeth rhwng gofynion y cwricwlwm statudol i ddysgwr mewn ysgolion a gynhelir a gofynion statudol y cwricwlwm i ddysgwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion ac AHY. Mae Deddf 2021 yn hwyluso fframwaith mwy cynhwysol ar gyfer addysg drwy osod gofynion tebyg o ran y cwricwlwm ac asesu ar ddarparwyr ar draws ysgolion a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion ac AHY mewn lleoliadau sydd ddim yn unedau cyfeirio disgyblion. Dylai hyn helpu plant a phobl ifanc i symud o un math o leoliad i un arall, er enghraifft, o uned cyfeirio disgyblion i ysgol brif ffrwd.

40. Mae’r Cwricwlwm i Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ystyried yr hyn sy'n briodol i'r dysgwr a'i ddatblygiad ac mae'n cydnabod y gallai dysgwyr mewn rhai achosion symud o un lleoliad i'r llall neu gael eu cofrestru mewn mwy nag un ysgol neu leoliad.[6]

## Ysgolion a gynhelir

41. Roedd 474,724 o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2021. O'r rhain, roedd 1,866 o ddisgyblion wedi'u cofrestru mewn dwy ysgol a gynhelir (ysgolion meithrin, cynradd, canol, uwchradd neu arbennig).[7]

### Y Cynnig

42. Pan fo plentyn neu berson ifanc wedi'i gofrestru mewn mwy nag un ysgol neu leoliad, bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol lle mae'r dysgwr yn preswylio fel arfer baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn sicrhau—
- yr addysgu a'r dysgu sydd i'w darparu ar gyfer y disgybl ym mhob ysgol neu leoliad
- y trefniadau asesu a fydd yn gymwys i'r disgybl ym mhob ysgol neu leoliad, ac
- y trefniadau ar gyfer adrodd ar gynnydd y disgybl i rieni neu ofalwyr.

43. Nodir y trefniadau presennol ar gyfer adrodd yn Rheoliadau Darparu Gwybodaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2022. Cynigir datgymhwyso'r rheoliadau hyn ar gyfer y plant a'r disgyblion hynny sydd yn y cwricwlwm newydd. Yn eu lle, cynigir gwneud rheoliadau newydd a bydd y rhain yn destun ymgynghoriad ar wahân. Rhagwelwn y bydd y cynllun yn nodi pa leoliad fydd yn arwain ar ddarparu'r adroddiad hwnnw.

44. Nid oes bwriad i ragnodi'r manylion sydd i'w cynnwys yn y cynllun hwn. Mater i'r awdurdod lleol fydd gweithio gyda'r personau perthnasol sy'n gyfrifol am addysgu a dysgu'r disgybl:
- Penaethiaid
- Cyrff llywodraethu
- Athrawon cyfrifol
- pwyllgorau rheoli
- Darparwyr AHY (a drefnwyd o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996)
- Awdurdodau lleol (sy'n darparu trefniadau o dan adran 19A o Ddeddf 1996 neu sy'n gyfrifol am ysgol y mae'r dysgwr wedi'i gofrestru ynddi)

---

[6] I gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar nodweddion allweddol darpariaeth AHY mewn unedau cyfeirio disgyblion ac mewn lleoliadau sydd ddim yn unedau cyfeirio disgyblion o dan fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, cliciwch yma.
[7] Cyfrifiad Ysgolion Ebrill 2021

45. Bydd y rheoliadau arfaethedig yn gymwys i blant a disgyblion a addysgir yn y lleoliadau a ganlyn:

- Disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag 1 ysgol a gynhelir
- Disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag 1 uned cyfeirio disgyblion
- Disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn o leiaf 1 ysgol a gynhelir ac mewn o leiaf 1 uned cyfeirio disgyblion
- Disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn o leiaf 1 ysgol a gynhelir ac mewn o leiaf 1 ysgol annibynnol
- Disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn o leiaf 1 uned cyfeirio disgyblion ac mewn o leiaf 1 ysgol annibynnol
- Disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag 1 ysgol annibynnol

46. Byddai cynllun yn dechrau ar y diwrnod y caiff y dysgwr ei gofrestru mewn mwy nag un lleoliad neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny; a byddai’r cynllun yn para am hyd at 12 mis.

47. Hefyd, dylai'r awdurdod lleol adolygu'r cynllun yn barhaus a'i ddiwygio:
- os caiff y cwricwla a ddarperir i'r dysgwr yn y naill leoliad neu'r llall ei ddiwygio[8] neu
- os yw’r awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny ar unrhyw adeg.

48. Er mwyn hyrwyddo tryloywder, bydd yn ofynnol i'r personau perthnasol ddarparu copi o'r cynllun i'r dysgwr a'i riant neu ofalwr. Fodd bynnag, ni fydd y gofyniad i ddarparu copi i'r dysgwyr yn gymwys os bydd yr awdurdod lleol, mewn ymgynghoriad â'r personau perthnasol (e.e. y pennaeth neu'r athro cyfrifol), yn penderfynu nad oes gan y dysgwr y gallu i ddeall yr wybodaeth yn y cynllun.

49. Manteision yr opsiwn hwn:
- sicrhau dull cyffredin yn genedlaethol o ymdrin â dysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad. Sicrhau cysondeb a pharhad i'r rhai sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion neu leoliadau mewn mwy nag un awdurdod;
- ei gwneud yn haws i ddysgwyr sy'n elwa ar ddarpariaeth unedau cyfeirio disgyblion neu ddarpariaeth AHY arall drosglwyddo'n ôl i addysg brif ffrwd pan fyddant yn gallu gwneud hynny.
- Lleihau'r tebygolrwydd y bydd y cyfrifoldeb am ddysgwyr yn cael ei golli rhwng ysgolion neu leoliadau, e.e. rhwng lleoliadau AHY ac ysgolion (h.y. llai o amwysedd ynghylch pwy sy'n gyfrifol am y dysgwr).

## Plant sy’n derbyn gofal

50. dan y ddeddfwriaeth bresennol, rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am blentyn sy'n derbyn gofal baratoi cynllun addysg personol ar gyfer y plentyn hwnnw.[9] Mae hwn yn gofnod o'r trefniadau a wneir i ddiwallu anghenion y plentyn mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant. Fodd bynnag, efallai na fydd yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn yr un fath â'r awdurdod lleol lle mae'n preswylio fel arfer.

---

[8] Yn achos plentyn sy’n cael cwricwlwm AHY mewn lleoliad sydd ddim yn uned cyfeirio disgyblion o dan adran 53 o Ddeddf 2021, mae'r cwricwlwm wedi'i deilwra iddo yn hytrach nag i'r lleoliad.

[9] Adran 83 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

51. Er mwyn sicrhau cysondeb, bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn baratoi'r cynllun i gydlynu darpariaeth y cwricwlwm ar draws lleoliadau. Bydd hyn yn sicrhau bod y ddau gynllun yn cyd-fynd a bod darpariaeth addysgol briodol yn cael ei gwneud ar gyfer y plentyn hwnnw.